------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddReform@senedd.wales

---

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Cylch gorchwyl y Pwyllgor

(09.30-09.40) (Tudalennau 1 - 2)

**Dogfen ategol:**

Papur 1 - Cylch gorchwyl y Pwyllgor

## 3 Papurau i'w nodi

(09.40)

**3.1 Papur i'w nodi 1 - Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd - 3 Awst 2023**

(Tudalennau 3 - 4)

**3.2 Papur i'w nodi 2 - Ymateb gan y Pwyllgor Biliau Diwygio i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd - 23 Awst 2023**

(Tudalen 5)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac o'r cyfarfod ar 20 Medi 2023

(09.40)

## 5 Ffyrdd o weithio

(09.40-10.15) (Tudalennau 6 - 15)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfen ategol:**

Papur 2 – Ffyrdd o weithio

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**



# Cylch gorchwyl y Pwyllgor

13 Medi 2023

## Diben

**1.** Mae'r papur hwn yn amlinellu cefndir sefydlu'r Pwyllgor Biliau Diwygio, ac yn rhoi gwybodaeth am ei gylch gorchwyl a'i rôl.

## Cefndir ac aelodaeth

**2.** Ar 11 Gorffennaf 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig i'r Senedd y caiff pwyllgor, sy'n cynnwys pedwar Aelod ac a gadeirir gan aelod o grŵp Llafur Cymru, ei sefydlu i graffu ar Filiau a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

**3.** Ar 12 Gorffennaf 2023, pleidleisiodd y Senedd o blaid sefydlu Pwyllgor Biliau Diwygio. Etholodd y Senedd David Rees AS (Llafur Cymru) yn Gadeirydd, a phenodi'r aelodau Pwyllgor a ganlyn:

- Heledd Fychan AS (Plaid Cymru)
- Darren Millar AS (Ceidwadwyr Cymreig)
- Sarah Murphy AS (Llafur Cymru)

**4.** Cytunodd y Cadeirydd wedi hynny, yn unol â Rheol Sefydlog 17.49, y caiff Jane Dodds AS (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) gymryd rhan (ond nid pleidleisio) yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a gweithgarwch arall.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**5.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor yw craffu ar Filiau a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

**6.** Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu naill ai:

- pan fo’r holl Filiau a gyfeirir at y Pwyllgor wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ac mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu na fydd rhagor o Filiau’n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor; neu

- pan fo'r Senedd yn penderfynu felly;

pa un bynnag sydd gyntaf.

**7.** Mae Rheol Sefydlog 17 yn nodi gweithdrefnau a rheolau sy'n ymdrin ag ystod o faterion sy'n ymwneud â gweithrediad pwyllgorau'r Senedd.

## Rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1

**8.** Nodir gweithdrefnau a rheolau sy'n ymwneud â chyflwyno Biliau gan y Senedd a chraffu arnynt yn Rheol Sefydlog 26. Ar gyfer pob Bil a gyfeirir at y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, bydd y Pwyllgor yn trafod ei egwyddorion cyffredinol, gan ganolbwyntio ar brif ddibenion y Bil, yn hytrach nag edrych ar y manylion (sy'n fater ar gyfer cyfnodau diweddarach). Er mwyn llywio ei waith, caiff y Pwyllgor wahodd sylwadau gan bartïon a chanddynt fuddiant, a chaiff gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Caiff rhagor o wybodaeth am ddull y Pwyllgor o graffu ar bob Bil a gyfeirir ato ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor maes o law.

**9.** Pan fydd y Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad ar bob Bil a gyfeirir ato, gofynnir i'r Senedd drafod egwyddorion cyffredinol y Bil hwnnw a phleidleisio arnynt. Os caiff y cynnig ei dderbyn, bydd y Bil yn mynd i Gyfnod 2, sy’n cynnwys trafodaeth fanwl o’r gwelliannau a’u gwaredu.

**10.** Mae rhagor o wybodaeth am y broses ddeddfwriaethol ar gael ar wefan y Senedd.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Eitem 3.1

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

3 Awst 2023

Annwyl David

## Gwaith craffu ar ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd

Gan ragweld y bydd Bil cyntaf Diwygio'r Senedd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn nhymor yr Hydref, bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried papur ar ei ddull o gynnal gwaith craffu ar y Bil yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf. Gwnaethom gytuno – oherwydd natur unigryw'r Bil hwn – y byddai'r Pwyllgor yn gwahodd tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ymwneud â'i oblygiadau ariannol, ac nid dim ond yr Aelod â Gofal, fel sy'n digwydd fel arfer.

Yn ogystal â'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, mae'r Pwyllgor wedi nodi Comisiwn y Senedd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiannau penodol yng nghostau'r Bil.

O ystyried y gallai Pwyllgor y Bil Diwygio hefyd wahodd yr un rhanddeiliaid i fynd i sesiynau tystiolaeth lafar, hoffwn archwilio ffyrdd y gallem weithio gyda'n gilydd i osgoi dyblygu, ac i wneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael ar gyfer cynnal gwaith craffu seneddol cadarn ar y darn hwn o ddeddfwriaeth.

Rwy'n cydnabod yn llwyr nad yw eich Pwyllgor wedi cael cyfle eto i drafod y materion hyn, o ystyried mai dim ond ar 12 Gorffennaf y cafodd ei sefydlu. Fodd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried cydweithio â'r Pwyllgor Cyllid i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd o'i Thoriad, ym mis Medi.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

23 Awst 2023

Annwyl Peredur

Gwaith craffu ar ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Awst 2023 yn awgrymu ein bod yn archwilio'r potensial i'n Pwyllgorau weithio ar y cyd mewn perthynas â gwaith craffu ar ddeddfwriaeth sydd ar ddod i ddiwygio'r Senedd.

Cytunaf ei bod yn fuddiol archwilio lle y gallai fod potensial i'n Pwyllgorau gydweithio mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, a nodi cyfleoedd i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o'r amser a'r adnoddau sydd ar gael, tra'n cydnabod hefyd y gallai ein cylchoedd gwaith unigol olygu bod hefyd angen cynnal sesiynau tystiolaeth ar wahân gyda rhai rhanddeiliaid i sicrhau ffocws digonol ar y materion pwysig hyn.

Rwyf wedi gofyn i glerc y Pwyllgor Biliau Diwygio drafod hyn ymhellach gyda chlerc y Pwyllgor Cyllid, a byddaf yn sicrhau bod cyfleoedd o'r fath yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaeth Pwyllgor y Bil Diwygio ynghylch ei ddull o graffu ar ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon